



GWEITHDREFN AR GYFER CAM 2: GWRANDAWIADAU PWYLLGOR

1. Rydym yn cydnabod y gall honiad o gamymddwyn beri straen a gofid. Mae cyngor a chefnogaeth ar gael gan:

- Undeb y Myfyrwyr - <https://www.uswsu.com/academic>
- Gwasanaethau Myfyrwyr - <https://www.southwales.ac.uk/cy/myfyrwyr-presennol/ardal-gynghori/>
- Y Gaplaniaeth - <https://www.southwales.ac.uk/cy/gwasanaethau/y-gaplaniaeth/>

Mae'r weithdrefn ar gyfer gwrandawriad Pwyllgor Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer wedi'i hamlinellu yn y ddogfen hon ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr (studentcasework@southwales.ac.uk). Bydd Gwaith Achos Myfyrwyr hefyd yn rhoi canllawiau ychwanegol i fyfyrwyr ar sut i baratoi ar gyfer y gwrandawriad a'r hyn y gallant ei ddisgwyl ar y diwrnod.

2. Mae gwybodaeth am aelodaeth a swyddogaeth y pwyllgorau ar gael yn y [Rheoliadau Camymddygiad ac Addasrwydd i Ymarfer Myfyrwyr](#). Bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb (ac, lle bo'n berthnasol, y Myfyriwr sy'n Adrodd) yn cael gwybod enwau aelodau'r Pwyllgor cyn i'r ddogfennaeth gael ei dosbarthu a rhoddir cyfle i godi unrhyw bryderon, er enghraifft os ydynt yn credu y gallai aelod fod yn rhagfarnlyd¹.
3. Fel arfer, cynhelir gwrandawriad y Pwyllgor o fewn 20 diwrnod gwaith i'r achos gael ei atgyfeirio gan y gyfadran. Bydd Gwaith Achos Myfyrwyr yn rhoi dyddiad y gwrandawriad i'r Myfyriwr sy'n Ymateb (ac, lle bo'n berthnasol, y Parti Adrodd) o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad. Gall y Brifysgol ymestyn yr amserlen hon mewn amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) os yw myfyriwr wedi gofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol. Os oes angen dyddiad diwygiedig ar y Myfyriwr sy'n Ymateb, am reswm da, bydd y gwrandawriad yn cael ei aildrefnu **unwaith yn unig**. Rhaid i'r Myfyriwr sy'n Ymateb hysbysu Gwaith Achos Myfyrwyr o leiaf 48 awr cyn y gwrandawriad gwreiddiol os oes angen dyddiad diwygiedig arnynt.
4. Os nad yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn dymuno, neu os nad ydynt yn gallu mynychu'r gwrandawriad, bydd yn digwydd yn ei absenoldeb. Lle mae hyn yn wir, fe'u cynghorir yn gryf i ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig.
5. Gall myfyrwyr gyflwyno cais am amgylchiadau esgusodol os ydynt yn credu bod yr achos wedi effeithio ar eu hastudiaethau academiaidd. Ni fydd angen iddynt ddatgelu manylion yr honiad(au) oherwydd gall Gwaith Achos Myfyrwyr ddarparu llythyr i gefnogi'r cais.
6. Caniateir i fyfyrwyr gael unigolyn cymorth gyda nhw yn y gwrandawriad; er enghraifft, swyddog o Undeb y Myfyrwyr, aelod o staff y Gaplaniaeth, neu ffrind/aelod o'r teulu. Rôl unigolyn cymorth yw bod yno i'r myfyriwr yn ystod y cyfarfod fel presenoldeb cefnogol.

¹ Mae hyn yn golygu bod gan y myfyriwr reswm i gredu y gall cyfranogiad un neu fwy o aelodau'r Pwyllgor, yn fwriadol neu'n anfwriadol, effeithio ar degwch y penderfyniad.

This document is available in English. / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Nid eu rôl yw cynrychioli'r myfyriwr, eirioli ar eu rhan na siarad ar eu rhan, oni bai bod hyn wedi'i gytuno ymlaen llaw fel addasiad rhesymol.

7. O leiaf 48 awr cyn y cyfarfod, rhaid i'r myfyriwr hysbysu'r Brifysgol o enw, statws a, lle bydd y cyfarfod yn digwydd ar-lein, fanylion cyswllt yr unigolyn sy'n mynd gyda nhw.
8. Mae Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cadw'r hawl i wrthod presenoldeb unigolyn cymorth os penderfynir bod gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â'r unigolyn enwebedig, ac yn yr achos hwnnw, rhoddir cyfle i'r myfyriwr enwebu unigolyn cymorth gwahanol.
9. Ni all myfyrwyr anfon unrhyw unigolyn arall i'r gwrandawriad ar eu rhan.
10. Nid yw Rheoliadau, Polisiâu a Gweithdrefnau Prifysgol De Cymru yn gyfreithiol eu natur ac o ganlyniad, ni ddylai myfyrwyr fod angen unigolyn cymorth neu gynrychiolydd cymwys yn y gwrandawriad. Fodd bynnag, gall myfyrwr geisio cyngor, heb ragfarn, lle mae achos yn arbennig o gymhleth, a'r canlyniad posibl yn ddifrifol.
11. Er nad oes gan fyfyrwr hawl awtomatig i gael unigolyn cymorth neu gynrychiolydd cymwys yn gyfreithiol o dan y Weithdrefn hon, os yw myfyriwr am gael ei cefnogi/cynrychioli, gweler [Gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer Ceisiadau am Gynrychiolaeth Gyfreithiol](#) am ragor o wybodaeth.
12. Gall myfyrwr alw ar dystion i gefnogi eu hachos. Rhaid hysbysu Gwaith Achos Myfyrwyr am unrhyw dystion a fydd yn bresennol o leiaf 48 awr cyn y gwrandawriad. **Gall myfyrwyr ond wahodd tystion y maent wedi galw, neu geisio eu galw, yn ystod yr ymchwiliad, i sicrhau cyfiawnder naturiol.** Os yw myfyriwr yn dymuno galw tyst i'r gwrandawriad na chafodd ei alw yn ystod yr ymchwiliad, dylent ysgrifennu at Achos Myfyrwyr i ofyn am hyn, gan esbonio pam nad oeddent yn gallu galw'r tyst yn gynharach ac amlinellu perthnasedd eu tystiolaeth. Bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai), mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y gwrandawriad, wedyn yn penderfynu a yw'n gymesur ac yn deg caniatáu i'r tyst fynychu yn eithriadol. Mae'r myfyriwr yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw dystion y maent am eu gwahodd yn cael eu hysbysu am ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad.
13. At ddibenion y Weithdrefn hon, a lle bo'n berthnasol, mae'r unigolyn a wnaeth yr honiad cychwynnol (y Parti sy'n Adrodd) yn cael ei ddosbarthu fel tyst. Gwahoddir y Parti sy'n Adrodd i fynychu'r gwrandawriad. Fodd bynnag, nid oes raid iddynt fynychu ac o ganlyniad gallant wrthod unrhyw wahoddiad o'r fath.
14. Gall y Brifysgol ofyn i aelodau staff ac unrhyw unigolion eraill sy'n berthnasol i'r achos fynychu'r gwrandawriad fel tystion. Bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb (ac, lle bo'n berthnasol, y Parti Adrodd) yn cael gwybod enwau unrhyw dystion cyn y gwrandawriad.
15. Gall y gwrandawriad ddigwydd wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau electronig. Rhaid i unrhyw barti sydd angen mynychu gwrandawriad drwy ddulliau electronig hysbysu Gwaith Achos Myfyrwyr yn ysgrifenedig, o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y gwrandawriad. Lle cytunwyd ar hyn, bydd Gwaith Achos Myfyrwyr yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor cyn y gwrandawriad ac yn trefnu hyn gyda'r unigolion dan sylw.

Y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) fydd yn penderfynu a fydd y gwrandawriad yn digwydd wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau electronig.

This document is available in English. / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Ystyrir y ffactorau canlynol (heb fod yn rhestr gynhwysfawr), ynghyd â manylion penodol yr achos:

- Dewisiadau'r parti sy'n adrodd
 - Dewisiadau'r parti sy'n ymateb
 - Unrhyw bryderon ynghylch diogelu
 - Natur a difrifoldeb yr honiadau
 - Unrhyw addasiadau rhesymol sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw barti sy'n rhan o'r gwrandawriad
16. Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon copi o'r holl ddogfennaeth a ddaeth i law at y Myfyriwr sy'n Ymateb ac aelodau'r Pwyllgor o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad. Lle bo'n berthnasol, bydd y Parti Adrodd yn derbyn copi o'r ddogfennaeth berthnasol i'r honiad(au) y maent wedi'u codi.
 17. Ystyrir recordio, copïo neu ddosbarthu recordiadau neu ddeunyddiau ysgrifenedig heb awdurdod yn drosedd ddisgyblu.
 18. Bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael ei wahodd i gyflwyno ei achos yn ysgrifenedig cyn y gwrandawriad; dylai'r datganiad hwn fanylu ar unrhyw ffactorau lliniarol yr maent am i'r Pwyllgor eu hystyried. Cyfrifoldeb y Myfyriwr sy'n Ymateb yw darparu unrhyw ddeunydd ysgrifenedig i gefnogi eu hachos. Dylid anfon hyn at Ysgrifennydd y Pwyllgor o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y gwrandawriad. Bydd yr Ysgrifennydd yn dosbarthu'r deunydd ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y Myfyriwr sy'n Ymateb i'r Pwyllgor ac i'r Parti sy'n Adrodd o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad.
 19. Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn cyfaddef cyfrifoldeb, ac mae'r Parti Adrodd yn cytuno y gellir rhannu'r Datganiad Effaith gyda nhw, gellir darparu'r Datganiad Effaith a'i drafod gyda'r Myfyriwr sy'n Ymateb cyn i'r canlyniad a'r sancsiwn gael eu cytuno.
 - Os cyfaddefwch gyfrifoldeb, gellir darparu'r Datganiad Effaith i chi, a'i drafod gyda chi cyn cytuno ar y canlyniad a'r sancsiwn.
 - Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn gwadu cyfrifoldeb, dim ond os cadarnheir yr honiad, a chyn pennu sancsiwn, y bydd y Pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Effaith, er mwyn eu cynorthwyo i benderfynu ar sancsiwn priodol.

Os cyflwynir Datganiad Effaith a'i adolygu gan y Pwyllgor wrth benderfynu ar sancsiwn, gellir rhoi copi i'r Myfyriwr sy'n Ymateb gyda'r llythyr canlyniad.
 20. Ni fydd y Pwyllgor yn derbyn deunydd ysgrifenedig nad yw wedi'i ddarparu i'r Myfyriwr sy'n Ymateb cyn gwneud eu penderfyniad.
 21. Pe bai angen rhagor o wybodaeth ar y Pwyllgor er mwyn dod i benderfyniad, bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn wybod am unrhyw oedi.
 22. Fel arfer, rhoddir canlyniad y Pwyllgor i'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn ysgrifenedig o fewn pum niwrnod gwaith i'r gwrandawriad drwy e-bost; a/neu, lle mynegwyd bod anfon copi caled o ohebiaeth y Brifysgol yn well, i'w cyfeiriad diwethaf hysbys. Mewn rhai amgylchiadau, gall Cadeirydd y Pwyllgor benderfynu y dylid gael y canlyniad wyneb yn wyneb. Bydd Gwaith Achos Myfyrwyr yn rhoi gwybod i'r Myfyriwr sy'n Ymateb os bydd angen gwneud hyn.
 23. Nodir sancsiynau yn y [Rheoliadau Camymddygiad ac Addasrwydd i Ymarfer Myfyrwyr](#). Ac eithrio gwahardd/terfynu astudiaethau, dim ond ar ôl i'r cyfnod cais am adolygiad ddod i ben y byddant yn cael eu gosod.

This document is available in English. / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

24. Gweler y [Weithdrefn ar gyfer Cam 3: Ceisiadau am Adolygiad Cam 2 Camymddygiad ac Addasrwydd i Ymarfer](#) am wybodaeth ar sut i apelio yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer.
25. Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn Brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn hysbysu eu cyflogwr.